

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

30 Ebrill 2020

Cyfarfod drwy gyfrwng Microsoft Teams

Cofnodion Cyfarfod

Yn bresennol:

Jane Hutt AC – y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Ruth Marks - Prif Weithredwr CGGC
Anna Nicholl - CGGC
Ben Lloyd - CGGC
Fiona Harris - CGGC
Helene Hayes - Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cymru
Susannah McWilliam - Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cymru (sylwedydd)
Chris Johnes - Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
Karen Whitfield - Cyswllt Amgylchedd Cymru
Kate Young - Grwp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Llesiant a Chwaraeon
Susie Ventris Field - Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Gethin Rhys - Crefydd
Andrea Cleaver - Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
Matthew Williams - Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Victoria Lloyd - Pobl Hŷn
Sean O'Neill - Plant yng Nghymru
Patience Bentu - Lleiafrifoedd Ethnig
Sandy Clubb – Gwirfoddoli
Jamie Birt - Cyflogaeth
Rocio Cifuentes - Lleiafrifoedd Ethnig
Kathryn Robson - Addysg a Hyfforddiant
John Puzey - Tai
Iestyn Wyn - Cyfeiriadedd Rhywiol
Elin Maher - y Gymraeg
Amanda Carr - Cyfryngwyr

Swyddogion Llywodraeth Cymru:

Alyson Francis - Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Isadran Gymunedau
Zenny Saunders - Dirprwy Gyfarwyddwr
Paul Dear – Yr Is-adran Gymunedau
Chris Buchan – Pennaeth Cymunedau a'r Trydydd Sector
Aaron Fortt – Tîm y Trydydd Sector
Helen Brown - Tîm y Trydydd Sector

Ymddiheuriadau

Paul Glaze - Ieuencid
Rhys Marged - y Gymraeg
Carl Cooper – Cyfryngwyr

Lynne Hill – Plant a Theuluoedd
Claire Lawson – Lles Anifeiliaid
Gareth Coles, VAW - Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth
Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru - Rhywedd

Eitem 1 ar yr agenda – Cyflwyniad

Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ("y Dirprwy Weinidog") bawb i'r cyfarfod ac agorodd drwy ddiolch i'r trydydd sector am y ffordd y mae wedi torchi'i lewys ac ymateb i anghenion cymunedau yn ystod y pandemig. Nododd y Dirprwy Weinidog fod seilwaith y sector wedi bod yn amhrisiadwy o werthfawr i'n hymateb, ac y byddai'n parhau i fod felly gydol y tymor canolig a hirach.

Esboniodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn awyddus i gyfarfod yn fwy aml â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ("y Cyngor") yn ystod yr argyfwng i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r problemau presennol a pharhaus sy'n wynebu'r sector.

Eitem 2 ar yr agenda – yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddarlun o'r holl gymorth a roddwyd ar waith o fewn ei phortffolio. Ewch i <https://llyw.cymru/gwirfoddoli-trydydd-sector-coronafeirws> am ragor o wybodaeth am y ffrydiau cyllido hyn. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog grynodedd byr o'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwirfoddoli, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwasanaethau cynghori a materion yn ymwneud â chydaddoldeb.

Eitem 3 ar yr agenda – yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Sector

Yna gwahoddodd y Dirprwy Weinidog gynrychiolwyr y Cyngor a Ruth Marks i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion allweddol a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y rhwydweithiau y maent yn eu cynrychioli.

Ruth Marks (RM)- Diolchodd RM i'r Dirprwy Weinidog am y cyfle i gynnal y cyfarfod.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd gan bob un o gynrychiolwyr y Cyngor wedi'u cofnodi isod:

Gwirfoddoli- Sandy Clubb - Mae'r ymateb gan y gymuned i'r argyfwng hwn wedi bod yn anhygoel ac wedi rhoi amlygrwydd i wirfoddoli. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi sefydliadau sy'n gofyn am wirfoddolwyr yn ogystal â chefnogi'r gwirfoddolwyr eu hunain. Roedd llawer o'r gwirfoddolwyr yn newydd (neu'n rhan o grwpiau cymunedol bach, newydd) felly roedd angen cymorth arnynt. Er mwyn rhoi'r cymorth hwn mae wedi bod yn hollbwysig gweithio'n agos gyda'r Cyngorau

Gwirfoddol Sirol, yn arbennig mewn meysydd fel diogelu. Efallai y bydd angen edrych ar sut y cefnogir gwirfoddoli yn y cartref.

Lleiafrifoedd Ethnig – Rocio Cifuentes - mae effaith yr argyfwng hwn wedi bod yn anghymesur ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd rhai o'r problemau roedd angen mynd i'r afael â nhw yn ymwneud â materion iaith ac â chyfathrebu cyngor a chymorth i gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Hefyd, roedd mwy o alw gan rai pobl am gymorth i gael bwyd. Mae'r math o gyfleoedd gwirfoddoli wedi newid ac roeddent yn ceisio sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu'n ddiogel. Cafwyd cyfleoedd am gyllid i gefnogi'r gwaith hwn.

Y Dirprwy Weinidog – Mae angen inni i gyd fod yn cysylltu â'r grwpiau anodd eu cyrraedd yn y cyfnod hwn yn hytrach nag aros iddyn nhw ddod atom ni.

Y Gymraeg - Elin Maher - Roedd materion a oedd yn cael effaith ar y rhwydwaith yn cynnwys unigrwydd, cysylltedd band eang/digidol ac allgáu. Roeddent wrthi'n ailedrych ar sut i gysylltu â phobl. Roedd y mwyafrif o bobl yr oeddent mewn cysylltiad â nhw yn cael gwybodaeth drwy'r teledu yn unig. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gydag S4C sydd wedi cynnig help i'r trydydd sector ddefnyddio'r sianel i ddarlledu eu negeseuon.

Y Dirprwy Weinidog – Nododd y byddai'r cofnodion yn cael eu dosbarthu i Weinidogion eraill a dywedodd ei bod yn bosibl y byddai Elin yn dymuno cyfarfod â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i drafod y mater hwn.

Sefydliadau cymunedol -Chris Johnes - Roedd rhai cyfleusterau cymunedol yn dal i fod ar agor er mwyn ymateb i anghenion y gymuned. Roedd y mathau o wasanaethau sy'n cael eu rhedeg o'r cyfleusterau cymunedol hyn yn cynnwys cyflenwi bwyd, cymorth iechyd meddwl a chymorth gyda hunanynysu. Mae sefydliadau gwirfoddol annibynnol sy'n rhoi cymorth annibynnol i'w cymunedau lleol yn profi eu gwerth heb os nac onibai. Er ei bod yn galonogol iawn gweld y ffyrdd arloesol y mae pobl wedi bod yn helpu gydol y cyfnod hwn, mae hefyd wedi tynnu sylw at ddwystrer a difrifoldeb tlodi yn rhai o'n cymunedau. Nododd Chris ei fod yn paratoi adroddiad ac y byddai'n ei rannu.

Fodd bynnag, mae cysylltiadau gwaith wedi bod yn gadarnhaol, ac yn parhau i wella, rhwng yr awdurdodau lleol, y cynghorau gwirfoddol sirol a'r sefydliadau cymunedol annibynnol, gan gynnwys gwell cydgysylltedd a gwybodaeth yn llifo'n ôl ac ymlaen. Byddai'n hanfodol fod y lefelau uwch hyn o gyfathrebu, ymddiried yn ei gilydd a chydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn cael eu cynnal gydol y cyfnod adfer (er mwyn sicrhau bod cymunedau'n cymryd rhan mewn penderfyniadau) a thu hwnt.

Cynghorau Gwirfoddol Sirol/Cyfringwyr – Amanda Carr – Roedd y cynghorau gwirfoddol sirol yn darparu cymorth i ymdrechion gwirfoddoli byrffyr, cymunedol ac ar lefel y stryd (drwy gynnig cyngor ar faterion fel llywodraethu a diogelu) yn ogystal â chynnig llwybrau mwy ffurfiol at wirfoddoli gydag awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol. Mae cysylltiadau gwaith da wedi'u sefydlu gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol. Mae cynghorau gwirfoddol sirol wedi gallu ymateb yn y fan a'r lle wrth gynnig cymorth materion diogelu, er enghraifft, pan oedd angen i

wirfoddolwyr drafod arian parod. Dyma rai o'r prif weithgareddau lle mae cynghorau gwirfoddol sirol ac awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd:

- Paru gwirfoddolwyr â chyfleoedd
- Cludo presgripsiynau i bobl
- Diogelwch bwyd
- Cynlluniau cyfeillio (cyswllt dros y ffôn â phobl)

Roedd y cynghorau gwirfoddol sirol hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd ynghylch ble y gallai'r cynghorau gynnig cymorth ar y llwybr gofal critigol.

Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y gwirfoddolwyr ac mae rheoli eu disgwyliadau wedi bod yn bwysig – mae cynghorau gwirfoddol sirol yn cadw mewn cysylltiad â'r rhai nad ydynt wedi cael eu paru hyd yma, gan egluro y byddai cyfleoedd i'w paru cyn bo hir. Mae'r cynghorau gwirfoddol sirol wedi defnyddio'r gwersi a ddysgwyd drwy'r gwirfoddolwyr ychwanegol a fu'n helpu yn ystod y llifogydd ac maent wedi rhoi'r gwersi hynny ar waith.

Byddwn yn etifeddu gwaddol gan y pandemig y dylem fanteisio arno. Mae'r cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr ac mewn cymunedau'n "torchi llewys" yn gyfle i ddulliau "seiliedig ar asedau" chwarae rhan flaenllaw yn yr hyn a wneir nesaf.

Mae'r sefyllfa hon hefyd wedi cyflwyno cyfle am gydweithio mwy clos rhwng y sector a'r sector preifat ar lefel leol, a gallai hynny fod yn waddol cadarnhaol arall.

Roedd **y Dirprwy Weinidog** yn cytuno bod gwersi pwysig i'w dysgu o'r modd yr ymatebodd y trydydd sector i'r llifogydd a fyddai'n helpu i gynllunio'r broses adfer ar ôl y pandemig.

Yr amgylchedd – Karen Whitfield - Roedd y llifogydd wedi cael effaith ar lawer o sefydliadau a phrosiectau, a nawr mae'r pandemig hefyd wedi bod yn ergyd iddynt. Roedd y camau cyfyngu a gymerwyd yn cael effaith ar fywyd gwyllt a'r gallu i'w fonitro (gan nodi y bydd bylchau yn ein data). Lle y bo'n briodol, byddai prosiectau a allai ailddechrau'n ddiogel, gan lynu wrth ganllawiau'r Llywodraeth, yn gwneud hynny er mwyn lliniaru effaith bod ar ffyrlo ar staff. Roeddent yn gweld cynnydd mewn troseddau bywyd gwyllt a thipio anghyfreithlon. Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol roedd teuluoedd yn defnyddio eu hymarfer dyddiol i ddarganfod manau i fwynhau natur yn lleol a datblygu adnoddau addysgol i blant eu defnyddio tra roeddent yn astudio gartref.

Pobl hŷn -Victoria Lloyd- un o'r materion y mae'r rhwydwaith wedi bod yn gweithio arno yw'r galw cynyddol am gyngor i bobl hŷn, a dulliau o'i rannu. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Age Cymru, Llywodraeth Cymru, cynghorau gwirfoddol sirol a Gwirfoddoli yng Nghymru wedi cydweithio i helpu â hyn.

Lleiafrifoedd Ethnig – Patience Bentu – er y bu gostyngiad mewn troseddau casineb a adroddwyd, mae'n bosibl bod ymddygiad o'r fath wedi symud ar-lein, yn enwedig tuag at y gymuned Tsieineaidd.

Y Dirprwy Weinidog – Hysbyswyd y Cyngor gan y Dirprwy Weinidog y byddai ymgyrch gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cael ei lansio'n fuan ac anogodd y Cyngor i hybu'r ymgyrch hon pan gaiff ei lansio.

Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Lles a Chwaraeon - Kate Young -y broblem roedd rhaid delio â hi ar fyrder oedd cyllid ar gyfer y sefydliadau bach ar lawr gwlad sy'n darparu gwasanaethau, yn ogystal â'r rhai mwy o faint. Roedd gofawyr di-dâl yn pryderu bod y term "gofawyr" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gofawyr cyflogedig yn unig, a bod gofawyr di-dâl yn cael eu hanghofio. Roedd angen i ni fod yn ymwybodol o'r geiriau yr oeddem yn eu defnyddio. Er bod llawer o wasanaethau wedi symud i'r cyfryngau digidol ar hyn o bryd, mae'n bwysig cofio bod angen i rai gwasanaethau fynd yn ôl i gael eu cyflawni wyneb yn wyneb, wrth i'r sefyllfa newid. Roedd hefyd yn allweddol bod y sector wedi'i gysylltu â sgysiau am beth fyddai ystyr coch, ambr a gwyrdd wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol - Helene Hayes - Roedd cynnydd sydyn wedi bod yn y galw yn enwedig am gyngor ar gyflogaeth a budd-daliadau. Roeddent yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf ac yn disgwyl i'r galw am gyngor ar ddyled gynyddu yn enwedig ar ôl i'r gwyliau talu ddod i ben. Yn sgil gwasanaethau'n symud ar-lein, roedd pryder nad oedd modd i bobl agored i niwed gael gafael ar wasanaethau – byddai effaith y newid hwn o ran dulliau cyfathrebu yn cael ei fonitro'n ofalus. Roeddent wedi gweld cynnydd yn yr angen am gymorth elusennol fel parseli bwyd a'r Gronfa Cymorth Dewisol. Croesawyd y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Plant yng Nghymru – Sean O'Neill - Roedd pwysau ac effeithiau'r argyfwng yn bwrw'r plant mwyaf agored i niwed yn waeth gan nad oedd pob cartref yn gartref diogel, ac na fyddai pob plentyn yn gallu cael gafael ar offer digidol i allu parhau â'u gwaith ysgol. Roedd hyn yn amlwg yn yr achosion lle'r oedd ysgolion wedi gweld nad oedd rhai plant wedi bod yn cyflwyno gwaith. Roedd angen sicrhau bod y neges yn cael ei rhannu, fod Gwasanaethau Plant ar agor yn ôl yr arfer.

Eitem 4 ar yr agenda - Gwersi a ddysgwyd

Yn ôl y Dirprwy Weinidog, mae'r llyfogydd diweddar a'r pandemig presennol wedi dangos pa mor wirioneddol bwysig yw'r trydydd sector i wydnwch cymunedau yng Nghymru.

Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n hoffi dechrau sgwrs am yr hyn y mae'r pandemig a'r llyfogydd wedi'i amlygu o ran y problemau, y gwendidau, yr asedau a'r cyfleoedd i'r sector yng Nghymru. Gallai'r sgwrs hon helpu i lywio'r broses adfer a blaengynllunio ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

Anna Nicholl – Eglurodd fod CGGC wedi dechrau ar y broses o gasglu gwersi allweddol o bob rhan o'r sector a'r hyn yr oeddent yn ei olygu ar gyfer cynllunio yn y dyfodol (yn y tymor byr, canolig a hirdymor) os ydym am gael trydydd sector cryf a chadarn yng Nghymru sy'n gallu ymateb i ergydion fel y llyfogydd a'r coronafeirws. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei drafod yn llawn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Mai.

Eitem 5 ar yr agenda - arwain Cymru allan o'r pandemig: ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned

Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod y trydydd sector wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymateb i'r argyfwng hyd yma ac y byddai'n chwarae rhan yr un mor allweddol yn y broses adfer. Byddai'n hollbwysig fod y sector yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio beth fydd yn digwydd nesaf.

Sicrhodd y Dirprwy Weinidog fod y Cyngor yn ymwybodol o gyhoeddiad Prif Weinidog Cymru ynghylch fframwaith Llywodraeth Cymru, "Arwain Cymru allan o bandemig y coronafeirws" a'r angen i ganolbwyntio arno, yn enwedig llinyn 4 y fframwaith, sy'n trafod yr angen i ymgysylltu â chymunedau gydol y cyfnod adfer.

Dyweddodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n croesawu ymateb ffurfiol gan y Cyngor ynghylch dod â'r cyfyngiadau i ben a goblygiadau hynny ar gyfer y dyfodol. Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau godi ymwybyddiaeth o ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol i'r wasg a'r cyfle i roi adborth drwy cymrueindyfodol@llyw.cymru ac ourfuturewales@gov.wales. Wrth gloi y cyfarfod, diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Cyngor am roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at ymuno â nhw i drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor (Mai).

Eitem 6 ar yr agenda – unrhyw fater arall

Dim

Gweithredu

- Cofnod o gyfarfod y Cyngor i'w ddisbarthu i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Gweinidog yr Amgylchedd, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Chris Johnes i rannu adroddiad gan Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau cyn gynted â phosibl.